O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2023 Rhif 913 (Cy. 140)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

Gwnaed	*17 Awst 2023*
Yn dod i rym	*22 Awst 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4232, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Capel Llanilltern i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Awst 2023.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 22 Awst 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4232 Llundain i Abergwaun.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Awst 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r gogledd a thua'r de yr A4232 (gan gynnwys y lôn neilltuedig tua'r de wrth Gyffordd 33) sy'n ymestyn o bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Croes Cwrlwys hyd at eu chyffyrdd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Capel Llanilltern (Cyffordd 33 yr M4).

Y darnau o ffordd ymuno tua'r gogledd a ffordd ymadael tua'r de yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.